



Diagramau gronynnau


1 Mae'r diagramau 2D hyn yn cynrychioli gronynnau mewn solid, hylif a nwy.



solid



hylif



nwy

- (a) Mae'r gronynnau yn y diagramau'n cael eu cynrychioli gan gylchoedd bach. Gan ddbynnu ar y math o sylwedd, beth allai'r gronynnau yn y diagramau fod yn ei gynrychioli?
Rhowch gylch o amgylch yr atebion cywir.

Clw: Mae mwy nag un ateb cywir.

- A** atomau
- B** electronau
- C** ïonau
- D** moleciwlau

(3 farc)

- (b) Llenwch y tabl drwy roi tic yn y blychau i ddangos safle'r gronynnau mewn solid, hylif neu nwy. Mae un wedi'i wneud i chi.

Dyma'r gronynnau:	Solid	Hylif	Nwy
mewn safle sefydlog	✓		
yn rhydd i symud			
mewn patrwm rheolaidd			
mewn trefniant afreolaidd			

(4 farc)

- 2 (a) Enwch y newidiadau mewn cyflwr gan ddefnyddio'r geiriau hyn:

berwi toddi rhewi cyddwyso

Ar y dechrau	Ar y diwedd	Enw'r newid
solid	hylif	
hylif	nwy	
nwy	hylif	
hylif	solid	

(4 farc)

- (b) Nodwch sut mae **egni'r** gronynnau yn newid ym mhob un o'r cyflyrau a ganlyn:

i. o solid i hylif?

_____ (1 marc)

ii. o hylif i nwy?

_____ (1 marc)

- (c) Nodwch sut mae **ymsymudiad** y gronynnau yn newid ym mhob un o'r cyflyrau a ganlyn:

i. o solid i hylif?

_____ (1 marc)

ii. o hylif i nwy?

_____ (1 marc)

(d) Pa ddatganiad sy'n egluro'n gywir pam mae'r newidiadau yng **ngwestiwn 2(a)** yn newidiadau ffisegol?
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir.

- A** Mae sylweddau newydd yn cael eu creu.
- B** Mae'r electronau wedi cael eu haildrefnu.
- C** Mae gan y cynhyrchion wahanol fformiwlâu cemegol i'r adweithyddion.
- D** Nid oes sylweddau newydd yn cael eu creu.

(1 marc)

(e) Pa un o'r ffactorau a ganlyn sy'n aros yr un fath yn ystod newid cyflwr?
Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir.

- A** trefniant y gronynnau
- B** fformiwlâu cemegol y gronynnau
- C** ymsymudiad y gronynnau
- D** y gofod rhwng y gronynnau

(1 marc)

3 Mae'r tabl yn dangos ymdoddbwyntiau tri metel.

Metel	Ymdoddbwynt/°C
alwminiwm	660
copr	1085
plwm	328

(a) Pa fetel sydd â'r grymoedd cryfaf rhwng y gronynnau?

_____ (1 marc)

(b) Eglurwch eich ateb i **gwestiwn 3(a)**.

_____ (1 marc)

(c) Lluniadwch ddiagram gronynnau i gynrychioli cyflwr ffisegol plwm ar 400°C.

(1 marc)

(d) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng grymoedd atynol gronynnau mewn solidau, hylifau a nwyon?

(3 farc)

[Cyfanswm: 23 marc]



Pa gwestiwn/gwestiynau a gawsoch chi'n anghywir? Pam?

Beth fyddwch chi'n ei wneud y tro nesaf y gofynnir cwestiwn tebyg i chi?